

Cofnodion **Cyfarfod Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mehefin 6ed yn Neuadd Goffa Sarnau/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, June 6th at Sarnau Memorial Hall.*

Yn bresennol/Present

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens (Cadeirydd/*Chair*), Caerwyn Owen, Gwyn James, Melva Phillips, Jonathan Rees, Teifi Davies, Walwyn Jones, Barri Davies, William Anwyl.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Gareth Evans (Ar Wyliau), Huw Davies a Carol Harries (newydd gael triniaeth lawfeddygol)
Gareth Evans (Holidays), Huw Davies and Carol Harries (undergone surgery recently)

2 Materion Personol/Personal Matters

Gwyn wedi dod yn dad-cu unwaith yn rhagor. Dymuniadau gorau a gwellhad buan i Carol yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

Gwyn has become a grandfather once more. Best wishes to Carol for a speedy recovery following her recent medical treatment.

3 Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol a Misol/Annual and Monthly Meeting Minutes – 2/5/23

Cynigiwyd gan Gwyn eu bod yn gywir ac eiliwyd hynny gan Teifi.

Proposed by Gwyn to be correct and seconded by Teifi.

4 Materion yn codi/Matters arising

4.1 Deffibrilwyr yn Sarnau a Brynhoffnant – Prynu Pads newydd i'r 2 ddeffib. Dywedwyd bod Marc Jones, Siop Brynhoffnant, wedi rhoi gwybod i'r Clerc bod y padiau ar y deffib y tu fas i'r siop yn dod i ben ym mis Mai 2023. Yn dilyn hynny, prynodd Delfryn y padiau angenrheidiol ar gyfer y ddau ddeffib uchod. Cytunwyd ei ad-dalu wedi i'r Cyngor agor cyfrif banc newydd.

Defibrulators at Sarnau and Brynhoffnant. Purchase of new pads for these 2 defibs. Marc Jones, Siop Brynhoffnant, had informed the Clerk that the pads for the defib outside the shop had expired in May 2023. In response, Delfryn bought necessary replacement pads for above mentioned defibs. It was agreed to reimburse him when the bank account is in order.

4.2 A487 – Arhosfan ger Tai Cyngor, Brynhoffnant. Nid oes ymateb wedi bod eto. Cytunwyd nad ydynt wedi cael llawer o amser i ymateb eto, felly penderfynwyd gohirio gwneud ymholiadau pellach.

A487 – Lay-by by Council Houses, Brynhoffnant. There has been no response yet. However, it was agreed that insufficient time had elapsed, with everybody agreeing to delay any further enquiries.

4.3 Ceredigion – Mainc i'w rhoi ger Ysgol T. Llew Jones. Nodwyd bod Pennaeth yr Ysgol yn awyddus i'w derbyn. O safbwynt ble i'w rhoi, cytunwyd ar rywle o flaen yr Ysgol. Mae Barri yn bwriadu cysylltu â'r Pennaeth.

Ceredigion – Bench to be located near Ysgol T. Llew Jones. Members were informed that School Head supported this intention. As regards its location, ideally in front of school. Barri agreed to discuss the issue with the school.

- 4.4 Ceredigion – Ymgynghoriad Gwasanaethau Dydd. Pwysleisiodd Gwyn pa mor allweddol yw cynnal y gwasanaeth hwn er lles y gymuned. Cynigiodd Teifi ohebiaeth o gefnogaeth i'r gwasanaeth gyda Jonathan yn eilio.

Ceredigion – Consultation on Day Services. Gwyn stressed how vital this service was for the community's benefit. Teifi proposed a statement of support for the service, seconded by Jonathan.

- 4.5 Un Llais Cymru – Rhestr o Ddyddiadau Hyfforddiant. Pwysleisiwyd yr angen am ddewis amrywiaeth eang o gyrsiau gan yr aelodau, a chysiau sydd o ddiddordeb, er mwyn ehangu arbenigedd aelodau'r Cyngor.

One Voice Wales – List of Dates for Training Courses. The need for a varied selection of courses by members was stressed, especially those of personal interest, in order to enhance members' expertise.

- 4.6 Ceredigion – Cau Ffordd Dros Dro C1012 Llangrannog 19/6/23 – 21/6/23. Diben y gwaith hwn yw cynnal gwaith ar y pibellau dŵr.

Ceredigion – Temporary Road Closure C1012 Llangrannog 19/6/23 – 21/6/23. Intention is to undertake water pipes maintenance work.

- 4.7 Gwefan y Cyngor. Nodwyd bod y darpar Glerc newydd, Gareth Jones, wedi bod yn cysylltu â Graham Jones, Caerwedros ynghylch datblygu gwefan y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol y dylid parhau â'r drafodaeth hon ar ran y Cyngor Cymuned.

Council Website. It was stated that Gareth Jones, prospective new Clerk, had contacted Graham Jones, Caerwedros regarding developing the website. Unanimously agreed to continue this discussion on behalf of the Council.

5 CYLLID/FINANCE

- 5.1 Cyfrif Banc – Diweddariad. Cafwyd cynulliad bach ar aelwyd Delfryn ddechrau mis Mai pan gysylltwyd yn uniongyrchol â'r banc **Bank of Scotland** ar y ffôn. Bu Gareth, yng nghwmni Gwyn, Caerwyn a Delfryn, yn ateb cwestiynau'r banc. Llwyddwyd mewn egwyddor i'r banc gymeradwyo manylion personol a phrawf credyd y Clerc a'r tri llofnodwr. Y dydd Gwener canlynol, aeth Caerwyn a Gareth lawr at Fanc Lloyds yn Aberteifi gyda'r dogfennau hanfodol. Y cam nesaf yw aros am y cadarnhad swyddogol ein bod wedi llwyddo i agor cyfrif newydd.

*Bank Account – Developments. A small meeting was convened at Delfryn's home beginning of May, when we spoke directly to **Bank of Scotland** on the telephone. In the presence of Gwyn, Caerwyn and Delfryn, Gareth answered the bank's questions. Succeeded in ensuring the bank approved the Clerk's and 3 signatories' personal details and credit check. Following Friday, Gareth and Caerwyn submitted essential documents to Lloyds Bank in Cardigan. Next step will be to receive confirmation that new account has been opened.*

- 5.2 Angen Talu'r Canlynol. C.A. Harries Tâl Misol Mehefin 2023 £402.06. Delfryn Owens, Ad-daliad padiau Deffib (i'w gadarnhau)

Reimburse the following. C.A. Harries Monthly Pay June 2023 £402.06. Delfryn Owens, Payment for Defib Pads (to beconfirmed).

5.3 Rhestr o gyrff ac unigolion mae'r Cyngor Cymuned wedi methu â'u talu oherwydd diffyg cyfrif banc.

- a) Ceredigion – dwy infois. Carol wedi bod mewn cyswllt gyda'r Cyngor Sir
- b) Steve Trick
- c) Clwb Hwyllo Tresaith

Dylid pwysleisio bod y bobl uchod wedi derbyn yr eglurhad a roddwyd am yr oedi cyn eu talu. Yn achos Steve Trick, nodwyd ei fod wedi rhoi'r gorau i'r gwaith o dorri porfa. Dywedodd Delfryn ei fod yntau wedi torri'r cloddiau ar hyd y llwybr gyferbyn â Neuadd Sarnau, a bod angen dod o hyd i rywun arall i'w olynu. O safbwynt y llwybr hwn, ychwanegodd Gwyn nad oes bin ysbwriel ar gael yno bellach, a bod eisiau ystyried y diffyg biniau yn y pentref. Y pwynt olaf o ran ad-dalu pobl oedd fod angen rhestr gyfan arnom er mwyn dechrau gyda llechen lân.

List of bodies and individuals not yet reimbursed due to lack of bank account.

- a) *Ceredigion – 2 invoices. Carol has been in contact with the County Council.*
- b) *Steve Trick*
- c) *Tresaith Sailing Club*

It must be stressed that all above mentioned have accepted the explanation regarding late payment. Regarding Steve Trick, it was noted that he no longer undertakes grass cutting work. Delfryn added that he had cut the hedge along the footpath opposite Sarnau Hall, but it was essential to find somebody else to continue the work. In addition, Gwyn stated that there is no longer a rubbish bin along this footpath, raising the issue of a shortage of bins in the village. As for reimbursing people, the need for a comprehensive list was raised, enabling us to start anew.

5.4 Cais am gyfraniad ariannol – Eglwys Penbryn. Gwelliannau i'r Maes Parcio. Y gost yn gyfan gwbl oddeutu £4000. Barn Carol oedd nad oedd arian dros ben ar gael eleni a byddai raid aros tan y Praesept nesaf. Gofynnwyd a oedd yr Eglwys wedi codi peth arian eu hunain? Heb wybodaeth ddigonol, penderfynwyd gohirio'r penderfyniad a darllen yr ohebiaeth i ddeall natur y cais.

Request for financial contribution – Penbryn Church. Improvements to Car Park costing approximately £4000. Carol's opinion was there was no available money this year, advising waiting for the next Precept. It was asked whether the Church had raised its own funds? Without sufficient information, it was decided to delay decision for further information regarding nature of request.

6 CYNLLUNIO/PLANNING

6.1 Ceredigion angen sylwadau ar y canlynol/*Ceredigion requires guidance on the following*
A230266 – Plot of Land adj Talsarn, Tanygroes, SA43 2JF, change of use along with access, siting of touring caravan and sheds (retrospective)

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

A230381 – Land at Brynberwyn Guesthouse, Tresaith. Proposed erection of new dwelling to form manager's accommodation, change of use of land for siting 4 holiday pods.

DIM GWRTHWYNEBIAD – Ar yr amod y dylai'r tŷ newydd gael ei leoli'n ganolog yn rhan o'r busnes, nid ar wahan i weddill y busnes.

NO OBJECTIONS – on the condition that the proposed new dwelling be located centrally within business, not in outlying area.

7 GOHEBIAETH/CORRESPONDENCE

7.1 Ceredigion – Strategaeth Tai Lleol. Mewn ymateb i'r arolwg hwn, cododd Gwyn y pwynt fod llawer o bobl yn gweld y tai fforddadwy sydd ar gael yn rhy fach o lawer. O'r herwydd, mae llawer yn methu symud ymlaen a fforddio tŷ mwy o faint am fod y gwahaniaeth rhwng y ddau dŷ yn ormod i'w bontio. Argymhellodd y dylai mwy o'r tai fforddadwy hyn fod yn fwy o faint i'w gwneud yn dai teuluol digonol i gynnal teuluoedd. *Ceredigion – Local Housing Strategy. In response, Gwyn stated that many found the available affordable housing to be far too small. As a result, many were unable to climb the housing market and buy a larger property, being unable to bridge the financial chasm. He recommended that more affordable housing should be larger, enabling them to become sustainable family homes.*

7.2 Un Llais Cymru – Cynhadledd Arfer Arloesol. Ar Faes y Sioe Frenhinol. Dydd Mercher 5/7/23. Estynnir gwahoddiad i unrhyw aelod o'r Cyngor fynychu'r digwyddiad. *One Voice Wales – Innovative Practice Conference. Held at Royal Welsh site. Wednesday 5/7/23. An invitation is extended to any member who wishes to attend.*

7.3 Dathlu Dadorchuddio Cerflun Cranogwen. Dechrau Canu Dechrau Canmol yn dilyn yng Nghapel y Wig. Meinir Jones Parry sy'n arwain a Delyth Griffiths, Morfa Uchaf sydd yn cyfeilio. *Celebrate the unveiling of Statue of Cranogwen. Recording of Dechrau Canu Dechrau Canmol to follow at Chapel y Wig. Conductor will be Meinir Jones Parry and Delyth Griffiths, Morfa Uchaf will accompany.*

8 UNRHYW FATER ARALL/ANY OTHER BUSINESS

8.1 Er mwyn pwysleisio'r angen, yn dilyn ei sylwadau am ddiffyg biniau ysbwriel ym mhentref Sarnau, cynigiodd Gwyn y dylid gofyn i Bwyllgor y Neuadd yn Sarnau, a fyddai modd darparu rhagor o finiau yn y pentref? Eiliwyd y cynnig gan Jonathan. *In order to emphasize his earlier point, regarding the lack of rubbish bins in Sarnau, Gwyn proposed that a request be submitted to Sarnau Hall Committee, whether further such provision can be provided within the village. Seconded by Jonathan.*

8.2 Gan fod y Clerc newydd yn bresennol yn y cyfarfod, cynigiodd Gwyn y dylid dechrau talu cyflog iddo am ei waith o'r noson hon ymlaen. Derbyniwyd hyn yn unfrydol gan yr aelodau. *With the new Clerk present, it was proposed, and unanimously accepted, that he be paid for his work from this meeting onwards.*

9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF/DATE OF NEXT MEETING

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned nos Fawrth, Gorffennaf 4ydd am 7.30 y.h. *The next meeting of the Community Council will be held on Tuesday, July 4th at 7.30 p.m.*

